SL(5)190 - Rheoliadau Awdurdod Cyllid Cymru (Pwerau i Ymchwilio i Droseddau) 2018

Cefndir a Phwrpas

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod darpariaethau amrywiol yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 i'w cymhwyso i ymchwiliadau i droseddau a gynhelir gan Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC"). Maent yn cynnwys cael mynediad i fangre o dan amgylchiadau penodedig ac i ymafael mewn eitemau perthnasol.

Ceir esboniad o'r darpariaethau unigol yn y Nodyn Esboniadol a'r Memorandwm Esboniadol. Gwnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ysgrifenedig cysylltiedig ar 21 Chwefror 2018 yn cyfeirio at yr amgynghoriad ynghylch y pwerau a'r penderfyniadau a gymerwyd.

Gweithdrefn

Gadarnhaol

Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Craffu ar rinweddau

Nodwyd y pwynt canlynol i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhoddir pwerau sylweddol i ACC gan y Rheoliadau hyn. Rhoddwyd esboniad nad yw'n ymddangos yn afresymol o'r pwerau hynny. Er hynny, tynnir sylw at y Rheoliadau ar y sail eu bod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu eu bod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. [Rheol Sefydlog 21.3(ii)]

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn yn y cyd-destun hwnnw.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan y Llywodraeth bellach (gweler isod).

Ystyriaeth y Pwyllgor

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt craffu rhinweddau a nodwyd.

Fodd bynnag, yn ystod ei ystyriaeth, cytunodd y Pwyllgor i gynnwys pwynt arall i gyflwyno adroddiad arno, yn ymwneud ag anghysondeb rhwng y rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod yn rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru gydymffurfio â chodau ymarfer statudol, ond ein dealltwriaeth ni yw mai dim ond rhoi sylw i'r cod y mae'n rhaid iddo ei wneud, a bod arno ddyletswydd i roi sylw i ddarnau perthnasol o'r cod yn unig **(gweler adran 67(9) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984)**. Mae gwahaniaeth pwysig rhwng gorfod cydymffurfio â rhywbeth a gorfod rhoi sylw iddo. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r sefyllfa ac, os oes angen, sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol yn ymwneud â'r rheoliadau yn cael eu cywiro.